Y Fro Gymraeg

Beth ydy'r Fro Gymraeg, pam bod ei hangen, a sut mae ei hennill

IE DROS Y FRO!

Cyhoeddiadau Cymuned rhif 4/£2.00

Cynnwys

1 Rhagair – tud. 3

2 Datganiad y Fro Gymraeg – tud. 4

3 Pam y Fro Gymraeg? gan Seimon Brooks – tud. 6

4 Map y Fro Gymraeg – tud. 8

5 Polisïau amlinellol i'r Fro Gymraeg – tud. 9

6 Sut i helpu ennill y Fro – tud. 12

7 Deiseb y Fro Gymraeg – tud. 13

8 Ffurflen aelodaeth Cymuned – tud. 14

Rhagair

Mae'r llyfryn hwn yn cyflwyno diffiniad Cymuned o'r Fro Gymraeg, Datganiad Cymuned ar gyfer y Fro Gymraeg, map o'r Fro, a chasgliad o bolisïau cychwynnol ar ei chyfer.

Mae Cymuned yn galw am gydnabyddiaeth o fodolaeth y Fro Gymraeg fel cam hanfodol tuag at sicrhau na fydd y dirywiad dychrynllyd presennol o'n cymunedau Cymraeg yn parhau.

Mae un o'r ffigyrau mwyaf ddylanwadol mewn cynllunio ieithyddol rhyngwladol, Joshau Fishman, wedi pwysleisio pwysigrwydd canolog cymunedau ieithyddol i ddyfodol ieithoedd lleiafrifol. Heb gymunedau lle mae'r iaith leiafrifol yn iaith naturiol, nid oes dyfydol cynaladwy i iaith leiafrifol.

Mae Cymru a'r Gymraeg yn hynod ffodus oherwydd rydym yn meddu ar gymunedau Cymraeg naturiol, mewn byd lle mae'r rhan helaeth o waith ar gyfer ieithoedd lleiafrifol yn canolbwyntio ar geisio codi cymunedau tebyg. Mae'r hyn sydd yn amcan i lawer o fewn ein dwylo ni yn barod.

Ond mae peryg real y byddwn yn gwastraffu'r maintais sylweddol hwn. Mae ein cymunedau Cymraeg yn crebachu'n gyflym, a hynny'n bennaf oherwydd mewnlifiad, all-lifiad, prisiau tai, diffyg swyddi o safon a diffyg statws i'r Gymraeg.

Nid oes modd datrys problemau'r Fro Gymraeg heb yn gyntaf gydnabod a dathlu ei bodolaeth. Dyna beth mae Cymuned yn galw amdano trwy gyhoeddi'r llyfryn hwn. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod ac yn dathlu bodolaeth y Fro Gymraeg fel cam cyntaf tuag at ddatrys ei phroblemau unigryw.

Mae'r llyfryn hefyd yn cynnwys casgliad o bolisïau cychwynnol ar gyfer y Fro Gymraeg. Byddwch yn cytuno gyda rhai, ac efallai yn anghytuno gydag eraill, ond maent i gyd yn dangos cymaint haws ydy creu polisïau ymarferol unwaith bod y Fro Gymraeg wedi'i chydnabod fel endid daearyddol. Nid oes angen cytuno gyda phob polisi awgrymwyd er mwyn cefnogi'r alwad am gydnabyddiaeth i'r Fro.

Nid oes llawer o amser ar ôl. Yn y sensws diwethaf, dim ond 12 o gymunedau yng Nghymru roedd gyda thros 80% o siaradwyr Cymraeg. Mae angen cydnabyddiaeth swyddogol i'r Fro Gymraeg os bydd unrhyw siawns i gadw'r cymunedau Cymraeg presennol yn fyw.

Aran Jones
Prif Weithredwr Cymuned
Hydref 2005

DATGANIAD Y FRO GYMRAEG

a gyhoeddwyd ym Machynlleth, 23ain Hydref 2004

Rhagymadrodd

Yn gymaint â bod pob bod dynol yn gydradd a chyfwerth;

Yn gymaint â bod amrywiaeth fawr a chyfoethog o fewn y ddynoliaeth o ran iaith, diwylliant a chenedligrwydd; a bod pob iaith, diwylliant a chenedl yn y byd yn gydradd a chyfwerth;

Yn gymaint â bod gan bob cenedl, boed fach neu fawr, yr hawl i fodoli yn ei phriod gymunedau a thiriogaethau, heb orfod dioddef gwladychu; ac nad oes gan yr un genedl hawl i wladychu cymunedau na thir cenedl arall;

Yn gymaint â bod hiliaeth (sef gorthrwm ar sail hil, hynny yw nodweddion corfforol, yn hytrach nag neu'n ogystal ag ar sail cenedl, iaith neu ddiwylliant) yn gyfangwbl wrthun;

Yn gymaint â bod gwladychu (sef yr hyn a geir pan fo ymfudwyr yn gwrthod integreiddio i wlad newydd, ond yn hytrach yn gorfodi eu hiaith, eu diwylliant a'u hunaniaeth eu hunain ar y wlad y maent yn ymfudo iddi, gan gymathu'r brodorion a/neu gael ymadael â nhw) yn ffurf ar ladrad ac felly yn drosedd, ac yn ffurf ar hiliaeth (sef hiliaeth wladychol) am fod gwladychiaeth a hiliaeth yn annatod ynghlwm wrth ei gilydd, yn hanesyddol ac o hyd heddiw;

Yn gymaint â bod llawer o ieithoedd, diwylliannau a chenhedloedd cynhenid y byd mewn perygl o gael eu dileu ('cenedl-laddiad') ac eraill eisoes wedi'u dileu, a hynny yn bennaf oherwydd gwladychu a hiliaeth wladychol;

Yn gymaint â bod y broses hon yn fygythiad i etifeddiaeth gyffredin y ddynoliaeth gyfan yn ogystal â chenhedloedd unigol, ac felly yn drosedd yn erbyn y ddynoliaeth;

Yn gymaint â bod y Gymraeg a'i rhiant, y Frythoneg, yn ieithoedd cynhenid Cymru ers oddeutu 2,500 o flynyddoedd, ond mai yn y Fro Gymraeg yn unig y mae'r Gymraeg yn parhau'n iaith gymunedol bellach;

Yn gymaint â bod y Fro Gymraeg, ei chymunedau, ei hiaith a'i diwylliant bellach yn wynebu difodiant a chenedl-laddiad oherwydd gwladychu ac oherwydd colli llawer o'i phoblogaeth gynhenid, yn yr un modd â llawer o bobloedd cynhenid eraill y byd;

Yn gymaint â bod datganiadau'r Cenhedloedd Unedig a Chyngor Ewrop yn cyndabod hawl pobloedd cynhenid i beidio â dioddef cenedl-laddiad, i gadw eu tiroedd traddodiadol a'u hunaniaeth, ac i gael eu hamddiffyn gan eu llywodraethau; a bod yr hawliau hynny yn rhan annatod o'r drefn ryngwladol er diogelu hawliau dynol;

Yn awr, gan hynny,

Yr ydym yn ddwys ac yn ddifrifol yn cyhoeddi'r datganiad a ganlyn:

Erthygl 1 - Y mae'r Fro Gymraeg yn bodoli fel rhanbarth ac ardaloedd neilltuol o Gymru, sef y rhannau o diriogaeth droddodiadol cenedl y Cymry lle y mae mwyafrif y boblogaeth gynhenid a thraean neu fwy o'r boblogaeth gyfan yn medru siarad a deall Cymraeg.

Erthygl 2 - Yr ydym yn llwyr gefnogol i bob ymdrech i adfer a phoblogeiddio'r Gymraeg yn rhanbarthoedd eraill Cymru (ac hefyd yn gefnogol i ddiwylliant Cymreig y rhanbarthoedd hynny a fynegir trwy gyfrwng y Saesneg neu ieithoedd eraill) ond yn credu bod parhad y Fro Gymraeg yn anhepgor er mwyn sicrhau parhad a datblygiad y Gymraeg yng ngweddill Cymru ac fel iaith genedlaethol, ynghyd â pharhad Cymru fel cenedl.

Erthygl 3 - Y mae gan bobl y Fro Gymraeg hawl i'w chadw fel rhanbarth ac ardaloedd lle y mae'r Gymraeg yn briod iaith, lle y bydd y Gymraeg yn iaith swyddogol, yn iaith naturiol y gymuned, yn brif iaith gweinyddiaeth a masnach a phob agwedd arall ar fywyd, ac yn iaith gyffredin ymhlith mewnfudwyr a rhwng mewnfudwyr a brodorion; ac y mae ganddynt hawl i beidio â dioddef gwladychu na cholli'r boblogaeth gynhenid.

Erthygl 4 - Y mae gan bobl y Fro Gymraeg (yn cynnwys y bobl gynhenid hynny sy'n ddi-Gymraeg) hawl i gyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys cartrefi, gwaith a chynhaliaeth, ynghyd ag addysg a gwasanaethau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Erthygl 5 - Y mae 'Mewnfudo Normal' (sef yr hyn a geir pan fo ymfudwyr o unrhyw darddiad, tras neu hil yn parchu iaith, diwylliant a hunaniaeth y Fro Gymraeg, yn dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg ac yn integreiddio i'r gymdeithas ar y sail honno) yn gwbl dderbyniol yn y Fro Gymraeg, ac yn gallu cyfoethogi ymhellach ein cymdeithas Gymraeg aml-hiliol a chynhwysol.

Erthygl 6 - Nid oes gan neb hawl i wladychu'r Fro Gymraeg, ai o fwriad ai'n anfwriadol. Y mae'r fath wladychu yn weithred wladychol-hilio ac yn drosedd, ac felly hefyd anogaeth neu gefnogaeth i wladychu. Y mae gwadu, gwrthwynebu neu danseilio bodolaeth y Fro Gymraeg a'i chymunedau hefyd yn weithredoedd gwladychol-hiliol.

Erthygl 7 - Y mae gan drigolion y Fro Gymraeg hawl moesol i wrthwynebu gwladychu a cholli ei phoblogaeth gynhenid, ac i wrthwynebu polisïau a gweithredoedd sy'n hybu'r pethau hyn. Y mae'r gwrthwynebiad hwn yn gyd-gefnogol â phobloedd cynhenid eraill drwy'r byd sydd yn dioddef oherwydd hiliaeth wladychol. Nid gwrthdrawiad rhwng cenhedloedd mo hyn, ond yn hytrach rhwng dwy ideoleg, sef gwladychiaeth hiliol ar y naill law a gwrth-wladychiaeth/gwrth-hiliaeth ar y llaw arall.

Erthygl 8 - Yr ydym yn gwrthwynebu'n llwyr bob ffurf ar hiliaeth; yn datgan bod pob bod dynol yn gydradd ac yn gyfwerth, beth bynnag fo'i hil a'i nodweddion corfforol; ac yn datgan bod y Fro Gymraeg yn rhanbarth ac ardaloedd aml-hiliol a chynhwysol, a'r Gymraeg yn briod iaith iddi.

Erthygl 9 - Yr ydym yn datgan ei bod yn gyfrifoldeb ar bawb yng Nghymru i wneud yr hyn sydd o fewn ei g/allu i sicrhau parhad y Fro Gymraeg a'i chymunedau.

Erthygl 10 - Yr ydym yn mynnu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, yr Undeb Ewropeaidd a phob corff perthnasol arall gefnogi'r datganiad hwn, cydnabod bodolaeth y Fro Gymraeg a'i hawl i barhau, derbyn eu cyfrifoldeb moesol i'w diogelu, a gweithedu'n briodol er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw.

***

Pam y Fro Gymraeg?

Mae Cymuned yn ymgyrchu dros sefydlu Bro Gymraeg sydd wedi ei diffinio'n ddaearyddol. Ond beth mae hyn yn ei olygu?

Yn ddigon syml, mae'n golygu fod Cymuned yn cydnabod realiti ieithyddol Cymru, sef bodolaeth rhai cymunedau lle mae pawb bron o blith y bobl leol yn medru siarad Cymraeg, ac ardaloedd eraill lle mae mwyafrif helaeth y boblogaeth yn ddi-Gymraeg.

Mae Cymuned yn cefnogi twf yr iaith mewn ardaloedd yng Nghymru sydd gan fwya' yn ddi-Gymraeg. Ond credwn fod rhaid i anghenion arbennig cymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith y mwyafrif – ac sy'n cael eu seisnigo ar hyn o bryd oherwydd gwladychiaeth – gael eu cydnabod.

Yn anffodus, ni ellir datrys problem nes cydnabod ei bod yn bodoli. Mae Cymuned yn credu bod cydnabod yn swyddogol fodolaeth cymunedau Cymraeg yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'u problemau.

Mewn un ystyr mae hyn eisoes yn digwydd yng Nghymru. Ym myd addysg, er enghraifft, mae'r Ysgolion Naturiol Cymraeg ac Ysgolion Categori A sy'n gwasanaethu cymunedau Cymraeg yn cydnabod bodolaeth *de facto* ardaloedd naturiol Cymraeg eu hiaith.

Ond mae'n rhaid i ni fynd ymhellach na buarth yr ysgol yn unig os ydym am gadw'r Gymraeg yn iaith y gymuned. A thrwy ddiffinio cymunedau Cymraeg, gallwn deilwra polisïau penodol mewn meysydd mor amrywiol â thai, cyflogaeth a statws iaith ar eu cyfer.

Er y byddai hyn yn ddatblygiad newydd yng Nghymru, mae'r syniad hwn o amrywio polisïau cymunedol ac ieithyddol er mwyn adlewyrchu realiti ieithyddol cymunedau go-iawn wedi bod ar waith ers blynyddoedd mewn rhannau eraill o Ewrop.

Yr enghraifft fwyaf cyfarwydd i ni yng Nghymru, efallai, yw'r *Gaeltacht* yn Iwerddon. Ond roedd cymunedau Gwyddeleg eisoes yn eithriadol o wan a gwasgaredig pan sefydlwyd y *Gaeltachtái* yno yn y 1920au.

Enghraifft well o bosib yw Gwlad y Basg. Mewn cymunedau yno ble mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Basgeg, mae'r polisi iaith yn fwy radicalaidd nag ydyw yng ngweddill y wlad. Yma codir arwyddion ffyrdd uniaith Fasgeg, a gweithredir trwy gyfrwng y Fasgeg yn unig mewn cynghorau a digwyddiadau cymunedol. Mae'r cymunedau Basgeg diffiniedig hyn yn cynnwys nifer o drefi yn ogystal â chefn gwlad. Does neb yng Ngwlad y Basg yn dweud bod bodolaeth y cymunedau Basgeg hyn yn "rhannu'r wlad" nag yn "gwanhau'r iaith mewn ardaloedd eraill".

Cred Cymuned y bydd yn bosib dynodi cymunedau Cymraeg, tra ar yr un pryd cadw'r Gymraeg yn iaith Cymru gyfan.

Y gwir amdani yw os nad awn ati i ddiffinio cymunedau Cymraeg yn ddaearyddol, cyn hir fyddan nhw ddim yn bodoli o gwbl. Er mor eithriadol o bwysig i iaith leiafrifol yw statws swyddogol, sustem addysg, cyfryngau a chefnogaeth gan y Wladwriaeth – y peth pwysicaf o ddigon yw bodolaeth cymunedau naturiol lle mae'r iaith leiafrifol yn cael ei siarad fel iaith bob dydd.

Ac nid Cymuned yn unig sy'n dweud hynny! Mae prif awdurdod y byd ar ieithoedd lleiafrifol – Yr Athro Joshua A. Fishman – yn dweud mai'r peth pwysicaf i iaith leiafrifol yw cadw cymdogaethau lle mae'r iaith yn gyfrwng naturiol y gymdeithas a'r aelwyd fel ei gilydd.

Dros gymunedau o'r fath mae Cymuned yn ymgyrchu.

Seimon Brooks,
Hydref 2005

Map y Fro Gymraeg



Mae'r Fro Gymraeg yn cynnwys yr ardaloedd coch, lle mae dros 50% o'r Cymry'n siarad Cymraeg. Mae'r coch tywyll yn ardaloedd lle mae dros 90% o'r Cymry yn siarad Cymraeg.

Mae'r ardaloedd gwyrdd y tu allan i'r Fro Gymraeg, ac angen polisïau gwahanol. Serch hynny, rydym yn ystyried yr ardaloedd gwyrdd tywyll, lle mae dros 20% o'r Cymry cynhenid yn medru'r Gymraeg, yn ardaloedd y gellir eu hystyried yn ddarpar bröydd Cymraeg. Dylid dargedu ardaloedd felly ar gyfer prosiectau i godi defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned gyda'r bwriad, gydag amser, o'u cynnwys yn rhan o'r Fro Gymraeg.

Polisïau amlinellol i'r Fro Gymraeg

Dylid sefydlu Cyngor Statudol etholedig yn cynrychioli'r Fro Gymraeg

Cred Cymuned fod Cymru yn genedl, a bod yr iaith Gymraeg yn iaith i Gymru gyfan. Credwn hefyd fod yr ardaloedd Cymraeg yn ffurfio rhanbarth ddiwylliannol y tu fewn i Gymru. Credwn y dylai unrhyw fodel a ddefnyddir i ranbartholi Cymru gydnabod y ffaith ieithyddol hwn.

Byddai Cyngor Statudol etholedig yn cynrychioli'r Fro Gymraeg yn medru dilyn sawl model rhyngwladol fel *Udaras na Gaeltachta*, cyngor etholedig yr ardaloedd Gwyddeleg eu hiaith yn Iwerddon, sy'n bennaf gyfrifol am ddatblygu economaidd, neu *Comisiun na Gaeltachta*, sydd yn cynghori'r llywodraeth yn Nulyn ar y bröydd Gwyddeleg eu hiaith, neu *Udalerri Euskaldunen Mankomunitatea*, y gymdeithas ymbarél ar gyfer cynghorau bro yng Ngwlad y Basg y mae dros 70% o'u poblogaeth yn siarad Basgeg.

Fe all y Cyngor Statudol newydd fod yn gyfrifol am yr amgylchedd ieithyddol, yn union fel y mae tri Awdurdod Parciau Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am yr amgylchedd gweledol. Dylai'r Cyngor Statudol hwn allu gosod targedau o ran isafswm perfformiad ieithyddol i gynghorau sir sydd â chyfrifoldeb am gymunedau Cymraeg. Fe ddylai hefyd fod â chyfrifoldeb am osod is-ddeddfwriaeth yn y maes cynllunio.

Dylid sefydlu Awdurdod Datblygu Economaidd penodol ar gyfer y Fro Gymraeg

Dylai'r Awdurdod fod wedi'i seilio naill ai ar fodel Cymreig, fel y Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, neu ar fodel Ewropeaidd, megis *Udaras na Gaeltachta* yn Iwerddon. Byddai'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu a datblygu cwmnïau cynhenid, denu mewnfuddsoddiad addas, a sicrhau nad yw datblygu economaidd yn milwrio yn erbyn buddiannau'r iaith Gymraeg.

Dylid sefydlu Pwyllgor Rhanbarthol y tu fewn i'r Cynulliad ar gyfer y Fro Gymraeg

Mae'r rhanbarthau gweinyddol Cymreig presennol – megis 'gogledd Cymru' a 'gorllewin a chanolbarth Cymru' – yn rhannu'r cymunedau Cymraeg oddi wrth ei gilydd, yn hytrach na'u huno. Ymhellach, nid yw ffiniau llywodraeth leol ychwaith yn dilyn ffiniau ieithyddol. Ceir cymunedau Cymraeg wedi'u lleoli y tu fewn i diriogaeth cynghorau sir sydd yn Saesneg eu hiaith yn bennaf, ac nad ydynt, efallai, yn barod i weithredu polisïau iaith cryf.

Gan fod y cymunedau Cymraeg yn debyg i'w gilydd o ran eu cyfansoddiad sosio-ieithyddol a phroffeil economaidd, credwn y dylid hybu cydweithio rhwng cymunedau Cymraeg ar draws y ffiniau gweinyddol hyn. I'r perwyl hwn, dylid sefydlu pwyllgor rhanbarthol y tu fewn i'r Cynulliad yn seiliedig ar yr ardaloedd Cymraeg.

Dylid sicrhau mai'r Gymraeg yw iaith fewnol awdurdodau lleol yn y Fro Gymraeg

Dylid sefydlu trefn o'r math yma yng nghynghorau Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin yn syth, gan ddilyn enghraifft Gwynedd. Er mwyn hwyluso hyn, dylai awdurdodau lleol yn y Fro Gymraeg, ynghyd â chyrff cyhoeddus sy'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, dderbyn cyllid ychwanegol er mwyn eu galluogi i ryddhau aelodau di-Gymraeg o'u staff ar gyrsiau dysgu Cymraeg dwys.

Dylid gwneud gwybodaeth o'r Gymraeg yn amod statudol i unigolion sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y Fro Gymraeg

Mewn sawl pentref, mae'r swyddfa bost leol yn darparu'r gwasanaethau hyn. Dylai'r sawl sy'n gweithio mewn swyddfa bost o fewn y Fro Gymraeg fedru'r Gymraeg. Dylid sefydlu Cronfa Gymunedol benodol ar gyfer cymunedau cefn gwlad sydd yn dymuno ffurfio cwmnïau cydweithredol i warchod gwasanaethau penodol yn eu hardaloedd, megis y siop, y tŷ tafarn ac yn y blaen.

Dylid darparu gwersi dinasyddiaeth Cymreig a Chymraeg ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r Fro Gymraeg

Cred Cymuned fod gan newydd-ddyfodiaid i'r Fro Gymraeg gyfrifoldeb sifig i ddysgu'r iaith Gymraeg. Credwn yn ogystal fod gan yr ardaloedd Cymraeg hwythau gyfrifoldeb; cyfrifoldeb i hwyluso'r gwaith o ddysgu Cymraeg i newydd-ddyfodiaid, a'i gwneud mor ddeniadol, effeithiol a chyfleus ag sy'n bosib. Er mwyn galluogi cymunedau Cymraeg i wneud hyn, bydd rhaid i'r Cynulliad wneud buddsoddiad ariannol sylweddol.

Dylid sicrhau fod y drefn addysg yn y Fro Gymraeg yn normaleiddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysg disgyblion rhwng 3 a 16 oed

Cred Cymuned fod addysg statudol Gymraeg yn hanfodol os ydym i atgyfnerthu gallu'r gymuned i sicrhau trosglwyddiad iaith llwyddiannus o genhedlaeth i genhedlaeth. Credwn y dylai pob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i fod yn hyderus ddwyieithog yn 16 oed. Yn yr ardaloedd Cymraeg, byddai hepgor darparu'r cyfle hwn gyfystyr â gwadu hawl i blant chwarae rhan lawn yn eu cymuned.

Dylid sefydlu Coleg Cymraeg Ffederal a chymreigio addysg alwedigaethol

Credwn y bydd hyn yn gwneud mwy o siaradwyr Cymraeg yn gymwys ar gyfer ystod ehangach o swyddi proffesiynol yn yr ardaloedd Cymraeg nag ar hyn o bryd. Byddai sefydlu Coleg Cymraeg Ffederal yn cwblhau trefn sefydliadol addysg cyfrwng Cymraeg o addysg feithrin hyd at addysg uwch, a byddai'n peri cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion uwchradd, colegau trydyddol a cholegau addysg bellach, yn ogystal â pheri cynnydd yn y nifer o ddisgyblion a myfyrwyr a fyddai'n manteisio ar y ddarpariaeth honno.

Dylid datblygu rhai trefi yn yr ardaloedd Cymraeg fel canolfannau fyddai'n apelio at bobl ifanc trefol eu naws

Dylid datblygu'r 'trefi twf' hyn yn economaidd, gan symud pencadlysoedd mudiadau a sefydliadau Cymraeg yno, sefydlu parciau busnes isel eu rhent, pennu polisi pendant o ddatblygu diwylliant ieuenctid Cymraeg, a chefnogi mentrau diwylliannol-gymunedol fel y Sesiwn Fawr yn Nolgellau. Dylai fod yn bosib byw bywyd 'cosmopolitaidd' yn yr ardaloedd Cymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid adleoli asiantaethau a chyrff cyhoeddus sy'n ddibynnol ar yr iaith Gymraeg am eu bodolaeth yn y Fro Gymraeg, gan ganolbwyntio ar y 'trefi twf' hyn.

Dylid anelu at ymestyn y Fro Gymraeg trwy helpu wardiau eraill ddod yn rhan ohoni

Dylid sefydlu cronfa ariannol i gefnogi wardiau y tu allan i'r Fro Gymraeg sydd yn datgan trwy bleidlais yr awydd i ddod yn rhan o'r Fro Gymraeg, gan eu helpu i gyrraedd y canran angenrheidiol o siaradwyr trwy gryfhau'r drefn addysg Gymraeg leol a thrwy gefnogi mentrau cymunedol Cymraeg.

Sut i helpu

Os ydych yn awyddus i gynorthwyo yn y gwaith o fynnu cydnabyddiaeth swyddogol i'r Fro Gymraeg, mae nifer o ffyrdd gwahanol i chi wneud hynny, heb gymryd gormod o'ch amser.

Yn gyntaf, cewch lofnodi'r ddeiseb dros y tudalen, a gofyn i nifer o'ch teulu a chyfeillion ei lofnodi hefyd, cyn ei dychwelyd at swyddfa Cymuned (cyfeiriad ar waelod y ddeiseb). Bydd hyn yn cynyddu'r pwyso ar y Cynulliad i drafod ein gofynion gyda ni.

Os ydych yn awyddus i fynd cam ymhellach, **cewch gysylltu gyda'r swyddfa i ofyn am sticeri 'YnyFro.com'**, sydd yn tynnu sylw at wefan sydd yn cyflwyno'r dadleuon dros gydnabyddiaeth i'r Fro Gymraeg. Bydd rhai hyd yn oed ychydig o sticeri i fyny mewn llefydd diogel a chyfreithlon yn dod â mwy o sylw i'r achos, ac yn gwneud gwahaniaeth real – hyd heddiw, mae oddeutu 4% o'r rhai sydd yn ymweld â'r wefan yn ymaelodi gyda Cymuned.

A dyna'r cam nesaf, wrth gwrs. Cewch **ymaelodi gyda Cymuned** am gyn lleied â £2 y mis trwy lenwi'r ffurflen aelodaeth yng nghefn y llyfryn hwn. Mae pob aelod cyswllt (sef y rhai sy'n talu'n fisol) yn derbyn cylchlythyr misol y mudiad, ac yn helpu'r mudiad gweithio tuag at fedru cyflogi aelod arall o staff. Trwy gynyddu ein hadnoddau ar ran amser a gwaith yn y swyddfa, mae modd i ni gynyddu proffeil ac effeithlonrwydd yr ymgyrch.

Os byddwch yn gwneud y tri pheth uchod, byddwch wedi gwneud gwahaniaeth real i'r ymgyrch dros gydnabyddiaeth i'r Fro Gymraeg – cofiwch, mae wirioneddol angen i'r ymgyrch hon lwyddo os ydym i weld dyfodol llewyrchus i'n cymunedau Cymraeg.

DATGANIAD Y FRO GYMRAEG

www.datganiad.com

Yr wyf yn datgan cefnogaeth i Ddatganiad y Fro Gymraeg, ac yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Brydain ei gymeradwyo.

Enw	Cyfeiriad	Cyfeiriad e-bost

Dychwelyd y ffurflen hon at
CYMUNED, 64 Stryd Fawr, Pwllheli, Gwynedd LL53 5RR CYMRU

Archeb Banc - Aelod Cyswllt Cymuned

I'w dalu i gyfrif banc **CYMUNED**, rhif cyfrif 91489224, côd didoli 40-08-09
Banc HSBC, 19 Stryd Fawr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1DH

Eich enw:_____

Eich banc:_____

Eich cyfeiriad e-bost:_____

Eich cyfeiriad:_____

_____

_____

Cyfeiriad cangen lleol eich banc:_____

_____

Côd didoli eich cyfrif:_____

Rhif eich cyfrif:_____

Dymunaf dalu £2 £3 £4 £5 £7 £10 £15 £20 £25 £50 **bob mis i gyfrif CYMUNED**.

Y swm mewn geiriau:_____

Dyddiad taliad cyntaf:_____

Y mae'r swm i'w dalu'n fisol hyd nes y cyfarwyddaf chi'n wahanol.

Arwyddwyd:_____

Dyddiad:_____

Dychwelwch y ffurflen hon i
CYMUNED, 64 Stryd Fawr, Pwllheli, Gwynedd LL53 5RR